# Adnabod rhywogaethau coed a'u nodweddion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag adnabod rhywogaethau coed a'u nodweddion naill ai mewn cyd-destun masnachol neu amwynder. Mae hyn yn cynnwys adnabod coed a phren.

Mae adnabod rhywogaethau coed yn agwedd hanfodol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant coed a phren, ac mae dealltwriaeth o nodweddion coed yn hanfodol wrth weithio gyda choed.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael a defnyddio offer a ffynonellau gwybodaeth amrywiol i adnabod rhywogaethau coed a’u nodweddion yn gywir 2. defnyddio nodweddion coed i gynorthwyo gyda’r broses o’u hadnabod 3. adnabod rhywogaethau coed ym mhob tymor 4. adnabod sut mae nodweddion coed yn dylanwadu ar ddulliau gweithio 5. adnabod sut mae nodweddion pren yn dylanwadu ar eu defnydd 6. adnabod coed cyffredin sy’n cael eu tyfu yn y DU 7. adnabod genera coed o samplau pren 8. cadw cofnodion adnabod coed cywir yn unol â gofynion y sefydliad a gofynion cyfreithiol perthnasol 9. cynnal eich iechyd a’ch diogelwch eich hun ac eraill yr holl amser, yn unol â deddfwriaeth berthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. egwyddorion sylfaenol dosbarthiad ac enwau botanegol 2. sut i ddefnyddio allweddi adnabod 3. sut y gall nodweddion planhigion gynorthwyo'r broses o'u hadnabod 4. cylchoedd gwahanol bywyd planhigion a choed (dosbarthiadau oed) 5. amodau tyfu delfrydol rhywogaethau gwahanol o goed 6. sut y gall effeithiau nodweddion coed ddylanwadu ar eu defnydd 7. sut y caiff pren rhywogaethau gwahanol o goed ei ddefnyddio 8. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Nodweddion yn cynnwys: * dail – maint a siâp * blagur * rhisgl a choesau * arferion twf * blodau, hadau a ffrwythau * pren

Adnabod rhywogaethau coed a'u nodweddion

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ceidwad y Grîn, Coedlannu, Coedyddiaeth a choedwigaeth, Garddwr, Gofalwr Tir, Gweithiwr meithrinfa, Tirluniwr, Rhodiwr, Gweithredwyr llifau cadwyn a pheiriannau coedwig |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Gwaith coed |
| **Geiriau Allweddol** | coeden; rhywogaeth; dail; rhisgl; pren |